# Heneiddio a rhoi ôl traul ar wisgoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i heneiddio a rhoi ôl traul ar wisgoedd ac ategolion. Gallai hyn ymwneud â thynnu dilledyn yn ddarnau er mwyn bodloni gofynion y cynhyrchiad, defnyddio'ch gwybodaeth o gyfeirnodau hanesyddol ac arddull weledol y cynhyrchiad, adnabod lleoliadau diogel i gyflawni'r gwaith, sicrhau bod cyflenwad trydan a dŵr digonol ynghyd â system awyru da, ail-adrodd gwaith a dyblygu effeithiau.

Mae'n debyg y byddai'r safon hon yn berthnasol i oruchwylwyr gwisgoedd, cynorthwywyr gwisgoedd, gweithwyr gwisgoedd wrth gefn, cynorthwywyr wardrob a gwneuthurwyr gwisgoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adolygu gofynion y cynhyrchiad, cyfarwyddyd y dylunydd gwisgoedd a'r sgript gan adnabod y gofynion ynghlwm â rhoi ôl traul ar y gwisgoedd
2. cadarnhau amserlen, cyllideb a chynllun dilyniant y cynhyrchiad
3. cadarnhau'r gofynion dilyniant o ran y gwisgoedd
4. cyfarwyddo'r tîm gwisgoedd ynghylch gofynion y gwisgoedd
5. adnabod a chaffael adnoddau i dynnu gwisgoedd yn ddarnau a rhoi ôl traul arnyn nhw
6. adnabod alergeddau a lefelau sensitifrwydd perfformwyr a'r tîm gwisgoedd a sicrhau caiff cynnyrch priodol eu defnyddio
7. defnyddio'r prosesau priodol i dynnu deunydd, dillad, esgidiau ac ategolion yn ddarnau
8. adnabod y gwaith tynnu gwisgoedd yn ddarnau a rhoi ôl traul arnyn nhw sydd angen ei gynnig yn allanol
9. caffael a chyfathrebu gydag is-gontractwr priodol pan fo'n ofynnol a thrafod a chytuno ar y gwaith, y gyllideb a'r amserlen
10. adnabod a thrafod faint o'r wisg fydd yn ymddangos mewn saethiadau a chadarnhau oes yna saethiadau agos neu gefndirol
11. monitro a rheoli isgontractwyr gan sicrhau caiff y safon ansawdd, y gyllideb a'r amserlenni eu bodloni
12. gwisgo dillad diogelu priodol i gyflawni'r gwaith 'rhoi ôl traul ar wisgoedd'
13. adnabod a gweithio mewn lleoliad diogel
14. cadw cofnodion a storio manylion unrhyw waith heneiddio neu roi ôl traul ar wisgoedd sydd wedi'i gwblhau
15. cydymffurfio gyda rheolau cyfrinachedd y cynhyrchiad
16. sicrhau bod pawb yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau COSHH (Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd)
17. cyfathrebu'n eglur gyda staff y cynhyrchiad ac adrannau neu unigolion perthnasol eraill
18. cydymffurfio gyda'r deddfwriaethau, polisïau a'r canllawiau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. ffurf neu gyfnod amser y cynhyrchiad
2. gofynion y cynhyrchiad a chyfarwyddyd y dylunydd gwisgoedd
3. y graddfeydd amser, yr amserlen a'r cynllun dilyniant
4. cyllidebau'r cynhyrchiad
5. gofynion dilyniant y cynhyrchiad
6. y technegau a'r prosesau er mwyn tynnu gwisgoedd yn ddarnau a rhoi ôl traul arnyn nhw
7. yr adnoddau a'r cynnyrch gofynnol er mwyn tynnu gwisgoedd yn ddarnau
8. alergeddau a lefelau sensitifrwydd perfformwyr a'r tîm gwisgoedd a sut i fynd i'r afael gyda nhw
9. sut i asesu'r llwyth gwaith ac amcangyfrif y gofynion o ran cynnig y gwaith yn allanol
10. sut i gynnig gwaith yn allanol / is-gontractio gwaith i fodloni'r gyllideb a'r amserlen
11. faint o'r gwisgoedd fydd yn ymddangos yn y saethiadau ac effaith hynny ar y gwaith tynnu gwisgoedd yn ddarnau a rhoi ôl traul arnyn nhw sy'n ofynnol
12. y dillad a'r cyfarpar diogelu gofynnol pan fyddwch yn cyflawni'r gwaith tynnu'r gwisgoedd yn ddarnau a rhoi ôl traul arnyn nhw
13. sut i asesu lleoliadau o ran eu haddasrwydd yn ymwneud â thynnu gwisgoedd yn ddarnau a rhoi ôl traul arnyn nhw
14. y cofnodion a'r manylion o ran tynnu'r gwisgoedd yn ddarnau sy'n ofynnol
15. staff ac adrannau'r cynhyrchiad ynghlwm a'r protocol cyfathrebu
16. rheolau cyfrinachedd y cynhyrchiad
17. cyfrifoldebau statudol ynghlwm â'r deddfwriaethau a'r rheoliadau iechyd, diogelwch, COSHH ac amgylcheddol

Heneiddio a rhoi ôl traul ar wisgoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSQ21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol, Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â’r Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Gwisgoedd |
| **Geiriau Allweddol** | Gwisg; wardrob; tynnu’n ddarnau; rhoi ôl traul; dillad; ategolion; sgript; cynhyrchiad; hanesyddol; cyfeirnodau; gweledol; arddull; sgript; lleoliadau; trydan; dŵr; cyflenwadau; awyru |